
Adnewyddu trwyddedau amblecs radio cenedlaethol

Ymgynghoriad

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 9 Mehefin 2022

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 21 Gorffennaf 2022

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	3
2. Cefndir	5
3. Ein hymagwedd arfaethedig	8
4. Y camau nesaf	13

Atodiad

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	14
A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori	17
A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad	18
A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad	19

1. Trosolwg

Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

- Bydd y trwyddedau amblecs radio cenedlaethol sy'n cael eu dal gan Digital One a Sound Digital yn dod i ben yn 2023 a 2028 yn y drefn honno. Eleni, mae Llywodraeth y DU wedi pasio deddfwriaeth sy'n rhoi'r pŵer i Ofcom adnewyddu'r trwyddedau hyn tan 2035.¹
- Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cynigion ar gyfer y penderfyniadau rydym yn bwriadu eu gwneud wrth adnewyddu'r trwyddedau hyn:
 - rydym yn cynnig na fyddem yn gosod unrhyw rwymedigaethau darpariaeth ychwanegol nac yn mynnu bod cynllun technegol newydd yn cael ei ddarparu wrth adnewyddu'r trwyddedau;
 - rydym yn cynnig na fyddem yn mynnu bod y trwyddedeion yn darparu cynigion newydd ar gyfer sut byddent yn hyrwyddo neu'n helpu i brynu cyfarpar radio digidol;
 - ein dewis ni fyddai peidio â gosod cyfradd PMR ar gyfer tymor newydd y trwyddedau, gan gydnabod y byddai ein hymagwedd yn gofyn am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a allai ein cyfarwyddo ynghylch y gyfradd PMR i'w gosod.

- 1.1 Mae radio digidol yn dal yn ffordd bwysig i bobl yn y DU wrando ar gynnwys sain. Mae ymchwil yn dangos bod 42 miliwn o oedolion, neu 75% o'r boblogaeth dros 15 oed, yn gwrandao ar radio digidol bob wythnos. Mae 33.2 miliwn o oedolion, neu 60% o'r boblogaeth, yn gwrandao ar radio digidol drwy radio darlledu sain digidol (DAB).²
- 1.2 Mae gwasanaethau DAB masnachol cenedlaethol yn cael eu cludo dros ddau amblecs sydd wedi'u trwyddedu i Digital One Limited a Sound Digital Limited. Daw'r trwyddedau hyn i ben yn 2023 a 2028 yn y drefn honno. Daeth Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol, sy'n rhoi'r pŵer i Ofcom eu hadnewyddu, i rym ym mis Ebrill eleni.
- 1.3 Nawr mae angen i Ofcom wneud penderfyniadau penodol cyn adnewyddu'r trwyddedau. Mae'r penderfyniadau hyn yn ymwneud â thri maes:
 - a) Mae'n bosib y byddwn yn gofyn i'r trwyddedai gyflwyno cynllun technegol newydd (ee cynllun ar gyfer lle gellid adeiladu trosglwyddyddion newydd i ymestyn neu wella darpariaeth yr amblecs) sy'n ategu'r cynllun a gyflwynwyd fel rhan o'r cais gwreiddiol am y drwydded.
 - b) Mae'n bosib y byddwn yn mynnu bod y trwyddedai'n cyflwyno cynigion newydd ar gyfer hyrwyddo neu gynorthwyo'r defnydd o gyfarpar sy'n gallu derbyn y gwasanaeth (hy derbynyddion DAB), i ategu'r rhai a wnaed yn y cais gwreiddiol am y drwydded.

¹ <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2022/444/contents/made>

² RAJAR Ch1 2022

- c) Gyda chydysniad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, cawn bennu canran o refeniw amblecs (PMR) y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded ei thalu yn ystod cyfnod y drwydded sydd wedi'i hadnewyddu.

1.4 Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein cynigion ar gyfer sut byddem yn bwrw ymlaen yn y meysydd hyn. Yn gwyno, rydym yn cynnig:

- na fyddwn yn gosod unrhyw rwymedigaethau darpariaeth ychwanegol nac yn mynnu bod cynllun technegol newydd yn cael ei ddarparu;
- na fyddwn yn mynnu bod y trwyddedeion yn darparu cynigion newydd ar gyfer sut byddent yn hyrwyddo neu'n helpu i brynu cyfarpar radio digidol;
- ein dewis ni fyddai peidio â gosod cyfradd PMR ar gyfer tymor newydd y trwyddedau (gan gydnabod y byddai ein hymagwedd yn gofyn am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a allai ein cyfarwyddo ynghylch y gyfradd PMR i'w gosod).

1.5 Rydym yn gwahodd rhanddeiliaid i ymateb gyda'u safbwyntiau yn y meysydd hyn erbyn 21 Gorffennaf 2022. Ar ôl ystyried yr holl ymatebion, byddwn yn cyhoeddi datganiad yn nodi ein safbwyntiau terfynol ac yn rhoi amserlen ar gyfer adnewyddu'r ddwy drwydded.

2. Cefndir

Hyd a lled a diben yr ymgynghoriad hwn

- 2.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag adnewyddu'r drwydded ar gyfer dau o amblecsau radio cenedlaethol y DU: y trwyddedau sy'n cael eu dal gan Digital One Limited a Sound Digital Limited. Nid yw'r ymgynghoriad yn ymwneud ag amblecs radio digidol cenedlaethol y BBC, sy'n cael ei reoleiddio o dan Siarter a Chytundeb y BBC, na thrwyddedau amblecs radio lleol.
- 2.2 Daw trwydded amblecs radio cenedlaethol Digital One i ben yn 2023, ac un Sound Digital yn 2028. Daeth Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol, a oedd yn rhoi'r pŵer i Ofcom adnewyddu'r trwyddedau hyn, i rym ym mis Ebrill eleni. Byddant yn cael eu hadnewyddu am dymor pellach ym mhob achos, gyda'r ddwy drwydded yn dod i ben yn 2035.
- 2.3 Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn rhanddeiliaid ar ein cynigion ar gyfer y broses o adnewyddu'r trwyddedau hyn. Rydym yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid erbyn 21 Gorffennaf 2022. Ar ôl i ni ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi datganiad yn nodi ein safbwyntiau terfynol.

Cymhwysedd ar gyfer adnewyddu

- 2.4 O dan adran 58 Deddf Darlledu 1996 ("y Ddeddf"), gellid adnewyddu trwydded amblecs radio a roddwyd o fewn chwe blynedd i gychwyniad y Ddeddf (sy'n cyfateb i'r cyfnod rhwng 1 Hydref 1996 ac 1 Hydref 2002) ar un achlysur am gyfnod o ddeuddeg mlynedd, gan ddechrau ar y dyddiad y byddai'n dod i ben fel arall. Gellid adnewyddu trwydded a roddwyd o fewn deng mlynedd i gychwyniad y Ddeddf ond nid o fewn chwe blynedd (hy y cyfnod rhwng 2 Hydref 2002 ac 1 Hydref 2006) ar un achlysur am gyfnod o wyth mlynedd, gan ddechrau ar y dyddiad y byddai'n dod i ben fel arall.
- 2.5 Cafodd y ddwy drwydded amblecs radio cenedlaethol sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn eu rhoi ar adegau gwahanol.
 - Cafodd y drwydded y mae Digital One yn ei dal ei rhoi ym mis Tachwedd 1999 am gyfnod o ddeuddeg mlynedd, a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2011. Fel y nodir uchod, o dan y Ddeddf roedd y drwydded yn gymwys i gael ei hadnewyddu am gyfnod pellach o ddeuddeg mlynedd (a dyna ddigwyddodd). Bydd cyfnod newydd y drwydded yn dod i ben ym mis Tachwedd 2023.
 - Rhoddwyd trwydded Sound Digital ym mis Mawrth 2016. O dan y Ddeddf, bydd y drwydded yn dod i ben ym mis Mawrth 2028.
- 2.6 Tan eleni, nid oedd gan Ofcom y pŵer i adnewyddu'r trwyddedau hyn. Yn achos Digital One, y rheswm am hyn yw bod yr unig adnewyddiad y mae'r drwydded yn gymwys ar ei gyfer eisoes wedi cael ei ddyfarnu ym mis Tachwedd 2011, ac nad oedd unrhyw adnewyddiad pellach ar gael. Yn achos Sound Digital, roedd hyn oherwydd nad oedd y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Ofcom adnewyddu trwydded a roddwyd dros ddeng mlynedd ar ôl cychwyniad y Ddeddf.

- 2.7 Ym mis Ionawr 2022, yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n gwneud newidiadau i adran 58 y Ddeddf er mwyn caniatáu i Ofcom adnewyddu'r ddwy drwydded am gyfnod newydd a fydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2035. Daeth y newidiadau i'r Ddeddf i rym ar 8 Ebrill 2022.³

Amserlen adnewyddu

- 2.8 Gan fod gan Ofcom y pŵer i adnewyddu'r trwyddedau amblecs erbyn hyn, mae'r Ddeddf yn mynnu bod trwyddedeion yn gwneud cais cyn y 'dyddiad perthnasol'. Mae'r 'dyddiad perthnasol' yn cael ei ddiffinio (mewn statud) fel y dyddiad erbyn pryd, pe na bai'r drwydded yn cael ei hadnewyddu, y byddai angen i Ofcom gyhoeddi hysbysiad yn gwahodd ceisiadau am y drwydded i'w gwneud hi'n bosib rhoi trwydded newydd o'r dyddiad y daw'r drwydded bresennol i ben. Drwy bennu 'dyddiad perthnasol', rydym yn sicrhau parhad gwasanaeth i wrandawyr os bydd y trwyddedai'n newid.
- 2.9 Yn achos trwyddedau amblecs radio cenedlaethol, rydym yn bwriadu pennu'r dyddiad perthnasol fel blwyddyn cyn i'r drwydded ddod i ben. Ar gyfer y drwydded Digital One, mae hyn yn golygu mai 15 Tachwedd 2022 fydd y dyddiad perthnasol. Ar gyfer y drwydded Sound Digital, 28 Chwefror 2027 fydd y dyddiad perthnasol.
- 2.10 Er mai'r dyddiad olaf un gwirioneddol ar gyfer adnewyddu'r drwydded yw'r dyddiad y daw'r drwydded i ben, byddem yn ceisio cwblhau'r broses o adnewyddu'r drwydded cyn agosod â phosibl at 'ddyddiad perthnasol' y drwydded dan sylw. Nid oes anfantais i drwyddedai os bydd ei drwydded yn cael ei hadnewyddu cyn y dyddiad dod i ben – mewn gwirionedd, mae'r gwrthwyneb yn wir. Mae gwybod bod ei drwydded wedi cael ei hadnewyddu yn rhoi mwy o sicrwydd i'r trwyddedai.

Gofynion adnewyddu

- 2.11 Cyn adnewyddu'r trwyddedau amblecs radio cenedlaethol hyn, mae Ofcom yn bwriadu gwneud penderfyniadau mewn tri maes.⁴
- Mae'n bosib y byddwn yn gofyn i'r trwyddedai gyflwyno cynllun technegol newydd sy'n ategu'r un a gyflwynwyd fel rhan o'r cais gwreiddiol am y drwydded. Os byddwn yn dewis gwneud hyn, rhaid inni hefyd roi gwybod i'r trwyddedai am unrhyw ofynion y mae'n rhaid i'r cynllun technegol newydd hwn eu bodloni. Gallai gofynion o'r fath gynnwys, ymysg pethau eraill, ehangu'r ddarpariaeth i ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd.
 - Mae'n bosib y byddwn yn mynnu bod y trwyddedai'n cyflwyno cynigion newydd ar gyfer hyrwyddo neu gynorthwyo'r defnydd o gyfarpar radio digidol, i ategu'r rhai a wnaed yn y cais gwreiddiol am y drwydded.
 - Gyda chydysyniad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, cawn bennu canran o refeniw amblecs (PMR) y mae'n rhaid i

³ [The Legislative Reform \(Renewal of National Radio Multiplex Licences\) Order 2022 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

⁴ Mae hyn yn cyfateb i'r pwerau a roddwyd gan Ddeddf Darlledu 1996: gweler adran 58(4) ac (8).

ddeiliad y drwydded ei thalu yn ystod cyfnod y drwydded sydd wedi'i hadnewyddu. Nid oes cyfradd PMR wedi'i gosod ar gyfer Digital One a Sound Digital ar hyn o bryd.

- 2.12 Mae dau reswm pam y byddem yn gallu gwrthod adnewyddu trwydded amblecs radio cenedlaethol:
- os yw'r trwyddedai wedi methu cydymffurfio â'r amodau yn ei drwydded bresennol, neu os ydym yn credu na fydd yn gallu cydymffurfio â'r amodau yn ei drwydded newydd; neu
 - rydym wedi rhoi gwybod i'r trwyddedai am y gofynion newydd y mae'n rhaid iddo eu bodloni mewn perthynas â'i gynllun technegol neu hyrwyddo'r defnydd o DAB ((a) a (b) uchod) ac nid yw cynigion y trwyddedai'n bodloni'r gofynion hyn.
- 2.13 Yn yr adran ganlynol rydym yn nodi ein cynigion ar gyfer pob un o'r meysydd sy'n berthnasol i adnewyddu trwyddedau.

3. Ein hymagwedd arfaethedig

- 3.1 Mae ein cynigion yn yr adran hon yn ymwneud â: a) darparu cynllun technegol ac unrhyw ofynion darpariaeth newydd; b) darparu cynllun ar gyfer hyrwyddo DAB; ac c) pennu canran o refeniw amblecs (PMR) y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded ei thalu yn ystod cyfnod y drwydded newydd. Rydym yn ystyried pob un o'r meysydd hyn ar wahân.

Cynllun technegol a gofynion darpariaeth

- 3.2 Wrth adnewyddu'r trwyddedau amblecs radio cenedlaethol, gallai Ofcom fynnu bod trwyddedai'n cyflwyno cynllun technegol sy'n ategu'r un yr oedd wedi'i gyflwyno fel rhan o'i gais gwreiddiol am y drwydded. Gallem roi gwybod i'r trwyddedai am unrhyw ofynion y mae'n rhaid i'r cynllun newydd eu bodloni.

Darpariaeth bresennol

- 3.3 Mae darpariaeth Digital One nawr yn cyrraedd dros 91% o gartrefi yn y DU, gan gynnwys Gogledd Iwerddon, nad oedd yn rhan o Ardal Drwyddedig y gwasanaeth gwreiddiol.⁵ Mae darpariaeth Sound Digital yn cyrraedd tua 83% o gartrefi'r DU. Mae hyn yn rhagori ar y ddarpariaeth arfaethedig adeg lansio, sef 75% o gartrefi'r DU. Mae'r ddarpariaeth bresennol wedi'i hamlinellu yn y tabl isod.

Tabl 1: Canran darpariaeth amblecsau radio masnachol cenedlaethol⁶

		Digital One	Sound Digital
Y DU	Cartrefi	91.7	82.6
	Priffyrdd	80.2	72.6
Lloegr	Cartrefi	94.8	86.7
	Priffyrdd	93.9	89.8
Yr Alban	Cartrefi	81.7	69.0
	Priffyrdd	45.5	33.6
Cymru	Cartrefi	67.5	56.9
	Priffyrdd	53.3	37.7
Gogledd Iwerddon	Cartrefi	85.4	56.8
	Priffyrdd	86.9	55.0

⁵ Yn dilyn ymgynghoriad, cymeradwyodd Ofcom gais gan Digital One i ymestyn y ddarpariaeth i Ogledd Iwerddon https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0011/41600/condoc.pdf

⁶ Data o adolygiad sain a radio digidol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: <https://www.gov.uk/government/publications/digital-radio-and-audio-review/digital-radio-and-audio-review#chapter-6---future-radio-distribution-and-coverage>

Ein hystyriaethau a'r ymagwedd arfaethedig

- 3.4 Gellid dadlau o blaid gosod gofynion newydd ar y rhai sy'n dal y trwyddedau amblecs radio cenedlaethol. Er bod darpariaeth amblecsau Digital One a Sound Digital yn eang ill dau, nid ydynt yn gwasanaethu'r DU gyfan ac nid yw darpariaeth yr amblecsau mor uchel yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ag y mae yn Lloegr. Hefyd, nid oes gan amblecs Sound Digital yr un ddarpariaeth ag amblecs Digital One ac efallai na fydd gan rai gwrandawyr radio digidol fynediad at yr ystod lawn o wasanaethau mae'r llwyfan yn eu cynnig.
- 3.5 Fodd bynnag, mae dadleuon cryfach yn erbyn gosod gofynion newydd ar y trwyddedeion.
- Mae DAB yn llwyfan cymharol aeddfed gyda chyfran sylweddol o wrandawyr radio. Felly, nid oes angen mwyach i sicrhau bod rhwydwaith trawsryddion yn cael ei ddefnyddio ar y raddfa sy'n angenrheidiol i sicrhau llwyddiant y llwyfan. Ers lansio'r amblecs radio digidol masnachol cyntaf yn 1999, mae'r llwyfan wedi tyfu ac aeddfedu. Ers ei lansio, mae nifer y gwasanaethau sy'n cael eu cludo ar y ddau amblecs radio digidol masnachol wedi cynyddu i 40. Mae'r data diweddaraf gan RAJAR yn dangos bod mwy o wrando'n digwydd ar DAB yn y DU o'i gymharu â radio analog (41.1% o'i gymharu â 32.1%). Yn 2018, am y tro cyntaf erioed, roedd y rhan fwyaf o wrando ar y radio yn wrando digidol. Mae gwrando digidol bellach yn cynrychioli 67.9% o'r holl wrando ar y radio.⁷
 - Mae'r ymrwymadau darpariaeth gwreiddiol gan Digital One a Sound Digital wedi cael eu cyflawni, ac mae'r ddau amblecs ar gael yn eang iawn ledled y DU. Mae llawer llai o angen nawr i sbarduno'r gwaith o gyflwyno darpariaeth amblecs radio digidol cenedlaethol i sicrhau bod y llwyfan yn cyrraedd gwrandawyr a'i fod o fudd iddynt.
 - Er nad yw'r ddau amblecs yn cyrraedd y DU gyfan, mae ffyrdd eraill o gael gafael ar radio digidol na drwy DAB. Mae modd i wrandawyr gael gafael ar orsafoedd radio digidol gartref drwy deledu digidol (sydd mewn 98.5% o gartrefi'r DU) neu fand eang yn y cartref. Y tu allan i'r cartref, gall gwrandawyr gael mynediad at orsafoedd radio digidol drwy rwydweithiau IP symudol. Yn 2021, roedd 29% o wrandawyr radio wedi defnyddio eu ffôn symudol i wrando ar y radio.⁸ Er nad yw darpariaeth symudol ar gael ym mhobman ar draws y DU, rydym yn disgwyl y bydd yn parhau i wella yn hyn o beth dros y blynnyddoedd nesaf.⁹
 - Byddai unrhyw benderfyniad i ymestyn darpariaeth radio digidol yn arwain at oblygiadau cost i'r gweithredwyr amblecsau. Gallai costau o'r fath gael eu trosglwyddo i ddarlledwyr ac felly gallent effeithio ar weddill y gadwyn gwerth radio digidol.
- 3.6 Felly, o ystyried lefelau presennol y ddarpariaeth gan y ddau amblecs cenedlaethol, aeddfedrwydd y llwyfan, y potensial i wrando dros IP dyfu yn y dyfodol, a'r potensial i gostau bodloni unrhyw ofynion darpariaeth newydd gael eu trosglwyddo i'r gadwyn

⁷ RAJAR Ch1 2022

⁸https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0023/222890/media-nations-report-2021.pdf

⁹ O dan y cytundeb Rhwydwaith Gwledig a Rennir, ymrwymodd Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol y DU i ddarparu i 88% o ehangdir y DU erbyn 2024, a 90% o'r ehangdir o fewn 6 blynedd i 2020 (yn destun amodau), gyda'r disgwyliad y bydd hyn yn golygu bod ôl troed 'o leiaf un gweithredwr' yn cyrraedd 95% o ehangdir y DU erbyn 2025.

gwerth, rydym o'r farn nad oes sail dda dros fynnu bod trwyddedeion yn ehangu'r ddarpariaeth drwy ofyniad ar gyfer adnewyddu trwyddedau.

3.7 Yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn, nid ydym yn cynnig gosod unrhyw rwymedigaethau darpariaeth ychwanegol na mynnu bod cynllun technegol newydd yn cael ei ddarparu wrth adnewyddu'r trwyddedau.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno na ddylai Ofcom osod unrhyw rwymedigaethau darpariaeth newydd ar y rhai sy'n dal trwyddedau amblecs radio cenedlaethol fel rhan o'r broses o adnewyddu'r drwydded, na gofyn am gynllun technegol newydd?

Hyrwyddo cyfarpar radio digidol

3.8 Gallai Ofcom fynnu bod trwyddedai'n cyflwyno cynigion ar gyfer hyrwyddo neu helpu i brynu cyfarpar radio digidol sy'n ategu'r rhai yn ei gais gwreiddiol, a rhoi gwybod iddo am unrhyw ofynion y mae'n rhaid i'r cynigion newydd eu bodloni.

Y defnydd o dderbynyddion DAB ar hyn o bryd

3.9 Ers lansio radio digidol yn y DU, mae dros 27 miliwn o setiau DAB wedi cael eu gwerthu.¹⁰ Mae data a gasglwyd ar gyfer Traciwr Technoleg Ofcom yn dangos, ymysg y bobl â radio yn eu cartref y mae rhywun yn gwrandao arno yn ystod y rhan fwyaf o wythnosau, bod gan 41% o leiaf un set radio digidol weithredol.¹¹ Y tu allan i'r cartref, cafodd rheoliadau newydd i gefnogi'r broses o fynnu bod radio digidol mewn cerbydau teithwyr eu cyflwyno ym mis Medi 2020, yn dilyn ymgynghoriad gan yr Adran Drafndiaeth. Erbyn hyn, amcangyfrifir bod gan 98% o geir newydd DAB/DAB+ yn safonol.¹²

Ein hystyriaethau a'r ymagwedd arfaethedig

3.10 Mae dadleuon cyfyngedig o blaid cyflwyno gofynion newydd ar y rhai sy'n dal trwyddedau amblecs i ddarparu cynllun ar gyfer hyrwyddo neu helpu i brynu cyfarpar radio digidol. Mae miliynau o setiau radio DAB wedi cael eu gwerthu yn y DU ers lansio radio digidol. Wedi dweud hynny, mae gwerthiant dyfeisiau symudol DAB newydd sy'n cael eu defnyddio yn y cartref wedi gostwng. Mae rhagamcaniadau'n awgrymu bod perchnogaeth ar ddyfais radio DAB wedi sefydlogi ac y gallai ddechrau dirywio yn y blynyddoedd i ddod – tuedd a drafodwyd yn adroddiad yr Adolygiad Sain a Radio Digidol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021.¹³ Mae'n bosib y byddai gofyniad newydd am gynllun ar gyfer hyrwyddo neu helpu i brynu cyfarpar radio digidol yn helpu i wrthdroi'r duedd hon.

3.11 Fodd bynnag, rydym yn credu bod dadleuon cryfach yn erbyn cyflwyno gofyniad newydd yn y maes hwn ar y rhai sy'n dal trwyddedau amblecs radio cenedlaethol yn benodol.

¹⁰

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1027206/Digital_Radio_and_Audio_Review_FINAL_REPORT_single_view.pdf

¹¹ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0015/219102/technology-tracker-2021-data-tables.pdf

¹² <https://getdigitalradio.com/latest-research-confirms-dab-radio-as-standard-in-new-cars-across-europe/>

¹³ <https://www.gov.uk/government/publications/digital-radio-and-audio-review/digital-radio-and-audio-review>

- Mae DAB yn llwyfan cymharol aeddfed erbyn hyn. Mae wedi tyfu o ran y nifer sy'n gwranddo a nifer y gwasanaethau sy'n cael eu cludo ers ei lansio. Mae DAB (a'r llwyfan radio digidol yn ei gyfanrwydd) wedi datblygu i'r fath raddau mai gwasanaethau digidol sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o wrando ar y radio erbyn hyn. Hyd yn oed os yw gwerthiant wedi bod yn gostwng, mae cannoedd ar filoedd o setiau DAB yn dal yn cael eu gwerthu bob blwyddyn (mwy na 900,000 o setiau DAB unigol yn 2020).¹⁴ Felly, mae'r angen i hyrwyddo'r defnydd o gyfarpar yn llawer gwannach na phan lansiwyd radio digidol.
- Mae'n debygol bod amrywiaeth o ffactorau'n gyfrifol am arafu'r twf (ac o bosib dirywiad yn y dyfodol) yng ngwerthiant setiau DAB. Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, newid ehangach tuag at gynnwys ar-lein, datblygiad hirdymor tebygol arferion gwranddo, a thwf y farchnad cynorthwydd llais / seinydd clyfar. Nid yw'n glir y byddai cynllun i hyrwyddo neu helpu i ddefnyddio cyfarpar radio digidol yn gwrthdroi'r tueddiadau hyn, nac mai gofyniad trwydded ar y rhai sy'n dal trwyddedau amblecs radio cenedlaethol yw'r ffordd orau o gyflawni hyn.
- Hyd yn oed petai angen hyrwyddo'r defnydd o gyfarpar radio digidol, nid yw'n amlwg ei bod yn gymesur cymhwyso gofynion i wneud hynny i'r rhai sy'n dal trwyddedau amblecs radio cenedlaethol yn benodol. Mae adroddiad yr Adolygiad o Sain a Radio Digidol a'n hymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid yn ei gwneud hi'n glir bod trafodaethau ynghylch y ffordd orau o sicrhau gwranddo digidol, a mentrau sy'n deillio o hynny, yn rhai i'w cynnal ar draws y diwydiant. Nid ydym yn credu bod dadl gref ar hyn o bryd dros osod gofyniad ar wahân ar drwyddedeion penodol i hyrwyddo neu helpu i brynu cyfarpar radio digidol.

3.12 Am y rhesymau hyn, nid ydym yn cynnig mynnu bod y rhai sy'n dal trwyddedau yn darparu cynigion newydd ar gyfer sut byddent yn hyrwyddo pryniant neu fynediad at gyfarpar radio digidol fel gofyniad ar gyfer adnewyddu'r drwydded.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno na ddylai Ofcom osod unrhyw rwymedigaethau newydd ar y rhai sy'n dal trwyddedau amblecs radio cenedlaethol i hyrwyddo'r llwyfan radio digidol DAB fel rhan o'r broses o adnewyddu'r drwydded?

Canran o refeniw amblecs (PMR)

- 3.13 Yr ystyriaeth olaf y mae'n rhaid inni ei gwneud yw dod i benderfyniad ynghylch a ddylid gosod taliad PMR fel rhan o'r broses o adnewyddu'r drwydded.

Beth yw PMR

- 3.14 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth benodol i Ofcom, gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, bennu PMR i'w thalu gan ddeiliad trwydded amblecs radio cenedlaethol ar gyfer pob un o'i gyfnodau cyfrifyddu. Fel arall, gall yr Ysgrifennydd Gwladol fynnu bod Ofcom yn gosod PMR benodol, neu'n gwneud Gorchymyn yn nodi na fydd unrhyw gyfradd (hy sero) yn cael ei phennu. Hyd

¹⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/digital-radio-and-audio-review/digital-radio-and-audio-review>

yma, nid oes cyfradd PMR wedi'i phennu. Petai PMR yn cael ei gosod, byddai'r refeniw hwn yn cael ei gasglu gan Ofcom a'i drosglwyddo i Drysorlys EM.

- 3.15 Diffinnir refeniw amblecs yn adran 56 y Ddeddf.¹⁵ "Refeniw amblecs" yw'r incwm y mae trwyddedai amblecs radio cenedlaethol yn ei gael o gludo gwasanaethau rhaglenni ar ei amblecs, a'r incwm y mae darparwr gwasanaeth rhaglenni ar yr amblecs yn ei gael o werthu hysbysebion a/neu nawdd. Caiff gyfradd y ganran amrywio yn ystod cyfnod y drwydded, ar yr amod bod unrhyw amrywiad o'r fath wedi'i osod yn amodau'r drwydded ar adeg adnewyddu'r drwydded. Ni ellir newid y gyfradd na'r cyfraddau a bennir ar ôl adnewyddu'r drwydded.

Ein hystyriaethau a'r ymagwedd arfaethedig

- 3.16 Nid yw'r trwyddedeion wedi gorfod talu PMR o'r blaen a, hyd y gwyddom ni, nid oes unrhyw aneffeithlonrwydd na niwed wedi digwydd.
- 3.17 Ar ben hynny, byddai gofyn am unrhyw daliad PMR yn arwain at anfanteision. Gan fod PMR yn cael ei osod fel canran o refeniw, nid yw cyfradd PMR yn cefnogi gweithgareddau sy'n rhoi hwb i refeniw (fel buddsoddi mewn cynnwys) oherwydd bod cynnydd mewn refeniw yn arwain at gynnydd mewn taliadau PMR. Gallai hefyd ogwyddo deiliad trwydded tuag at fodelau busnes cost isel/refeniw isel yn hytrach na rhai cost uchel/refeniw uchel, hyd yn oed os yw'r ail fodel yn cynhyrchu mwy o werth net.
- 3.18 Am y rhesymau uchod, rydym felly'n cynnig y byddai'n well gennym beidio â gosod cyfradd PMR, yn amodol ar farn yr Ysgrifennydd Gwladol.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'n dewis i beidio â gosod cyfradd PMR ar gyfer cyfnod newydd y trwyddedau amblecs radio cenedlaethol?

¹⁵ Gweler <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/55/section/56>

4. Y camau nesaf

- 4.1 Rydym yn croesawu ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad hwn. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 21 Gorffennaf 2022.
- 4.2 Ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben ac ar ôl ystyried yr holl ymatebion a gawn, byddwn yn cyhoeddi datganiad yn nodi ein casgliadau terfynol. Yn y datganiad hwnnw byddwn yn nodi'r broses adnewyddu trwyddedau, gan gynnwys amserlen derfynol i'r rhai sy'n dal trwyddedau ar gyfer gwneud cais i adnewyddu.

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 21 Gorffennaf 2022.

A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr o <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/national-radio-multiplex-licence-renewals>. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fydddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i broadcast.licensing@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r [ddalen gyflwyno](#).

Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

Broadcast Licensing
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A1.4 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:

anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad fod yn fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVDs; neu

gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.5 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A1.6 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymateb a gyflwynwyd i ni dros yr e-bost.

A1.7 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.8 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

- A1.9 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i broadcast.licensing@ofcom.org.uk.

Cyfrinachedd

- A1.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar [wefan Ofcom](#) yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori.
- A1.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A1.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A1.13 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, gallwn rannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan. Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar gyfer materion post, a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gyfer pob mater arall.
- A1.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein [Telerau Defnyddio](#).

Y camau nesaf

- A1.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod haf 2022.
- A1.16 Gallwch chi [gofrestru i gael diweddariadau post](#) i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A1.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.
- A1.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydyn ni'n rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A1.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth

Ofcom

Riverside House

2a Southwark Bridge Road

London SE1 9HA

E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

- A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

- A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
- A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
- A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.
- A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
- A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

- A2.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen drwy e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? _____

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedd cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw

Llofnod (os darperir copi papur)

A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A4.1 Gofynnwn am fewnbwn rhanddeiliaid ar y cwestiynau canlynol.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno na ddylai Ofcom osod unrhyw rwymedigaethau darpariaeth newydd ar y rhai sy'n dal y trwyddedau amblecs radio cenedlaethol fel rhan o'r broses o adnewyddu'r drwydded, na gofyn am gynllun technegol newydd?

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno na ddylai Ofcom osod unrhyw rwymedigaethau newydd ar y rhai sy'n dal trwyddedau amblecs radio cenedlaethol i hyrwyddo'r llwyfan radio digidol DAB fel rhan o'r broses o adnewyddu'r drwydded?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'n dewis i beidio â gosod cyfradd PMR ar gyfer cyfnod newydd y trwyddedau amblecs radio cenedlaethol?

Dim ond crynodeb manwl wedi'i symleiddio sydd yn adran trosolwg y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.